

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/03352/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

7 Tachwedd 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau, yn cyfeirio at Ddeiseb Rhif P-05-831 ynglŷn ag anhegwch a gwahaniaethu mewn perthynas â chymorth ariannol i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan waed heintiedig a'u teuluoedd.

Rwy'n ddiolchgar iawn ichi am dynnu fy sylw at y gwahanol enghreifftiau a roddwyd gan y deisebwyr.

Hoffwn ailadrodd ei bod wedi bod yn anodd sefydlu dull gweithredu a model cyson a chyfartal ar gyfer taliadau cymorth yn y DU ers i bob un o'r pedair gwlad fabwysladau trefniadau gwahanol ar gyfer y cynllun.

Yn arbennig, mae cyflwyno'r Mekanwaith Categoriâu Arbennig yn Lloegr yn ddiweddar a'r dull gweithredu newydd a gyflwynwyd hyd yn oed yn fwy diweddar yn yr Alban, wedi dwysáu'r ymdeimlad hwn o anhegwch o ran agweddau penodol ar y gwahanol gynlluniau cymorth a weithredir yn y DU. Fel yr eglurais o'r blaen, mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn cynnig pecyn mwy cytbwys a holistaidd o gymorth i'r buddiolwyr o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael drwy rai o'r cynlluniau eraill yn y DU.

Fodd bynnag, rwy'n cydnabod na ddylai buddiolwyr yng Nghymru fod ar eu colled yn sylweddol o'u cymharu â phobl mewn manau eraill yn y DU. Mae fy swyddogion yn parhau i baratoi opsiynau ar gyfer budd-daliadau'r cynllun a allai gynnwys mwy o gymorth ar gyfer buddiolwyr Cam 1 sy'n profi cymhlethdodau ychwanegol. Law yn llaw â hynny mae gwaith ehangach ar y gweill i adolygu'r fframwaith taliadau disgresiynol presennol. Y nod yw sicrhau mwy o dryloywder a meini prawf dyfarnu teg, gan ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw un o'r buddiolwyr presennol ar eu colled.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn rhoi gwybod yn syth i holl fuddiolwyr y cynllun am unrhyw newidiadau i' Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru a fydd yn deillio o'r adolygiad hwn.

Diolch yn fawr unwaith eto am ysgrifennu ataf ynghylch hyn. Rwy'n gobeithio bod fy ateb yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive style with a large initial 'V' and a long, sweeping tail on the 'g'.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services